

Ffedarasiwn Cwrt Henri, Ffairfach a Tallyllychau

Pennaeth / Headteacher - Mr Gethin Richards MA, BSc

richardsg75@hwbcymru.net

Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteacher
Mrs A Vaughan-Owen / Mrs A Morgan / Miss A Walker

01558 668588 / 01558 822796 / 01558 685356



Polisi Gwisg Ysgol School Uniform Policy

Anogir ein disgyblion i wisgo gwisg ysgol yn ddyddiol, er nad yw'n orfodol. Hefyd anogir iddynt wisgo eu gwisg ysgol wrth gynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau a drefnwyd gan yr ysgol tu fas i oriau ysgol. Darperir rhestr lawn o'r wisg ym mhrosbectws yr ysgol.

Nodau ac Amcanion

Gweithredir ar y syniad bod gwisg ysgol yn:

- hyrwyddo balchder yn yr ysgol
- peri'r synnwyr o berthyn i gymuned yr ysgol
- ymarferol ac yn smart
- hunaniaethau'r plentyn gyda'r ysgol
- osgoi'r temtasiwn i wisgo dillad ffasiynol a all fod yn wrthdynciad yn y dosbarth
- sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n gyfartal o ran ei olwg
- addas i'r ysgol a gwerth da am arian yn ôl barn y mwyafrif o rieni
- wedi'i chynllunio gydag iechyd a diogelwch dan sylw

Gemwaith

Am resymau iechyd a diogelwch, ni chaniateir gwisgo gemwaith yn yr ysgol ac eithrio un par o glustlysau bach (studs) ac oriawr. Hefyd rhoddir caniatâd (trwy gais i'r Corff Llywodraethol) pan wisgir y gemwaith am resymau crefyddol, diwylliannol neu feddygol. Gofynnir i'r disgyblion dynnu'r eitemau yma ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol er mwyn osgoi damweiniau neu niwed i blant eraill.

Gwallt

Ni chaniateir y plant i wisgo eu gwallt wedi'i dorri neu'i liwio yn eithriadol. Disgwylir iddynt glymu eu gwallt hir yn ol er mwyn osgoi damweiniau.

Esgidiau

Dymuniad yr ysgol yw bod pob plentyn yn tyfu i fod yn oedolyn iachus. Credwn ei fod yn beryglus i'r plant wisgo sodlau uchel neu esgidiau ymarfer corff trwy'r dydd, felly anogir iddynt wisgo esgidiau gwastad. Gofynnwn iddynt wisgo esgidiau duon fel y nodwyd yn y prosbectws. Disgwylir iddynt newid i mewn i esgidiau ymarfer corff ar gyfer gwersi allanol Addysg Gorfforol.

Rôl y Rhieni

Gofynnwn am gefnogaeth pob rhiant wrth ddarparu'r wisg briodol. Credwn fod cyfrifoldeb gan ein rhieni i ddanfôn eu plant at yr ysgol wedi'u gwisgo'n addas ac yn barod i wynebu gwaith y diwrnod mewn dillad glân a thaclus.

Os yr hoffai unrhyw riant addasu polisi'r ysgol i gwrdd ag anghenion unigol ei blentyn, gofynnwn iddynt gysylltu â'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Croesawir plant o bob cefndir a chymuned yn ein hysgol. Os oes rhesymau difrifol gan riant i wisgo ei blentyn yn wahanol i'r polisi yma (er enghraifft am resymau crefyddol, diwylliannol neu feddygol), ystyrier pob cais yn unigol gan y Llywodraethwyr.

Rôl Y Llywodraethwyr

Mae'r Corff Llywodraethol yr ysgol yn cefnogi'r Pennaeth wrth weithredu'r polisi hwn. Ystyri'r pob sylw gan rieni am y polisi mewn modd sensitif a theg.

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw hi i sicrhau bod y wisg ysgol ddewisedig yn cwrdd â rheoliadau cyfleoedd cyfartal.

Sicrheir bod ein disgyblion wedi'u gwisgo'n synhwyrol, mewn dillad diogel, ymarferol ac o ansawdd dda gan y Llywodraethwyr.

Monitro ac Adolygu

Mae'r Corff Llywodraethol yn monitro ac adolygu ein polisi gwisg ysgol trwy:

- holi barn y rhieni, gan sicrhau eu bod yn cefnogi ac yn cytuno â'r polisi
- ystyried, gyda'r Pennaeth, unrhyw gais gan rieni am beidio a gwisgo gwisg ysgol ddewisedig neu am wisgo eitemau crefyddol, diwylliannol neu feddygol

Os daw cynnig i addasu'r wisg yn llwyr, yna rhaid gynnal ymgynhoriad rhwng y staff, Llywodraethwyr, rhieni a Chyngor yr Ysgol cyn dod i benderfyniad. Rhoddir tymor o rybudd am y penderfyniad terfynol a bydd cyfnod o hyblygrwydd wrth drosglwyddo i'r wisg newydd. Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw sicrhau'r broses hon yn cael ei gweithredu'n gywir.